



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad:

## Cydberthnasau contractiol yn niwydiant Ilaeth y DU

2020



(h) Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) neu e-bostiwch [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

[\[dairycontractconsultation@defra.gov.uk\]](mailto:dairycontractconsultation@defra.gov.uk)

neu

Department for Environment, Food and Rural Affairs

Dairy Team

Seacole Block

2nd floor

2 Marsham Street

London SW1P 4DF

# Cynnwys

Cynnwys .....	3
1. Cefndir .....	5
2. Diben yr ymgynghoriad .....	6
3. Y broses ymgynghori .....	7
Ar bwy y bydd y cynnig hwn yn effeithio? .....	7
Amseriad a hyd yr ymgynghoriad hwn .....	7
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn .....	7
4. Ar ôl yr ymgynghoriad .....	9
5. Amdanoch chi .....	10
6. Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	12
Diwygio contractau – eich barn .....	12
Gofyniad cyfreithiol i gontractio'n ysgrifenedig .....	12
Amrywiadau yn y DU.....	13
Dulliau prisio.....	13
Cyfeintiau ac amseriadau.....	14
Hyd contractau .....	15
Terfynau contractau .....	16
Terfynau contractau – ar ran y cynhyrchydd .....	17
Terfynu contractau – ar ran y prynwr.....	17
Amrywiadau mewn cytundeb .....	18
Taliadau a phremiymau.....	18
Contractau cyfyngol.....	19
Darpariaeth bellach .....	19
Cyfrinachedd .....	20
Datrys anghydfod .....	20

Sefydliadau cynhyrchwyr.....21

Effaith ar fusnes .....21

Cyfnod pontio .....22

# 1. Cefndir

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn mewn ymateb i bryderon a godwyd bod cynhyrchwyr cynradd, gan gynnwys ffermwyr godro, yn tueddu i fod mewn sefyllfa gymharol wan ym marchnad y gadwyn cyflenwi bwyd. Y consensws ymhlith cynhyrchwyr amaethyddol y DU yw y gall y pŵer bargeinio anghyfartal â phroseswyr a manwerthwyr wneud ffermwyr yn agored i driniaeth annheg gyda'r potensial i danseilio proses o drosglwyddo prisiau teg ar hyd y gadwyn.

Mae nifer o wledydd eraill wedi cyflwyno rheoliadau mewn ymgais i sefydlogi marchnadoedd a mynd i'r afael ag anghydbwyseddau systemig. Yn yr Undeb Ewropeaidd, mae 13 o aelod-wladwriaethau, gan gynnwys Ffrainc a Sbaen, wedi cyflwyno cyfreithiau ar gontractau llaeth ysgrifenedig gorfodol rhwng ffermwyr a phroseswyr. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban [ei dadansoddiad](#) o'r gadwyn cyflenwi llaeth a'r ffordd y cymhwysir Contractau Ysgrifenedig Gorfodol ledled yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn gwerthuso effaith y contractau lle maent wedi cael eu mabwysiadu. Ymhellach draw, mae llywodraeth Awstralia wedi cyflwyno cod ymddygiad gorfodol ynglŷn â llaeth yn ddiweddar.

Yn 2012, cytunodd y diwydiant ar god arferion gorau gwirfoddol ar gydberthnasau contractiol yn y sector llaeth. Nododd safonau gofynnol ar gyfer arferion da wrth lunio contractau rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr. Yn yr un flwyddyn, cynhaliwyd [ymgyngoriad ac asesiad o'r effaith](#) mewn perthynas â chontractau ysgrifenedig gorfodol, fel rhan o asesiad o weithredu Pecyn Llaeth yr UE. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ar wahân gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Roedd y canlyniadau'n dangos dymuniad i roi digon o amser i'r cod gwirfoddol ddod yn weithredol. Cadwyd yr hawl i adolygu'r sefyllfa o ran cydberthnasau contractiol ac, os oedd angen, ailystyried cyflwyno deddfwriaeth ar gontractau os nad oedd y diwydiant wedi sicrhau'r newidiadau dymunol ar ôl cyfnod rhesymol o amser.

Yn 2016, lanswyd cais ffurfiol am dystiolaeth i ystyried yr achos dros estyn cylch gwaith Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser. Rôl y Dyfarnwr yw sicrhau bod y manwerthwyr domestig mwyaf yn trin eu cyflenwyr uniongyrchol mewn ffordd deg a chyfreithlon drwy orfodi a monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Groser. Cydnabyddir y Dyfarnwr fel rheoleiddiwr modern rhagorol sydd ag enw da yn rhyngwladol. Mae'n helpu i gryfhau cydberthnasau yn y gadwyn gyflenwi er budd defnyddwyr, manwerthwyr a busnesau bwyd eraill.

Datgelodd y broses hon dystiolaeth gan randdeiliaid o gydberthnasau contractiol gwael yn y sector llaeth. Tynnodd nifer bach o ymatebwyr sylw at yr her a achosir gan amrywiadau i ragofynion neu delerau contractau, yn enwedig os cânt eu gosod ar fyr rybudd. Cododd eraill yr anawsterau y mae cynhyrchwyr yn eu hwynebu wrth geisio terfynu eu contractau o fewn cyfnod rhesymol, os gwneir newidiadau sylweddol i brisiau neu delerau'r contract. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu patrwm o delerau ac

amodau annheg neu aneglur mewn contractau rhwng cynhyrchwyr a phroseswyr o bosibl a allai gyfyngu ar allu ffermwyr i gyllidebu'n effeithiol, rheoli prisiau anwadal a rhedeg busnesau proffidiol. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu nad yw'r cod gwirfoddol yn cael yr effaith a ddymunir o ran gwella cydberthnasau yn y gadwyn gyflenwi.\*\*

Roedd ymateb Llywodraeth y DU i Gais Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser am Dystiolaeth ([a gyhoeddwyd ar 16 Chwefror 2018](#)), yn cynnwys ymrwymiad i ymgynghori ar gyflwyno contractau ysgrifenedig gorfodol drwy ddefnyddio pwerau yn neddfwriaeth yr UE. Gan fod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, yn lle hynny, rydym yn ceisio pwerau domestig newydd i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth. Bydd y defnydd o bwerau domestig yn ein galluogi i ystyried natur benodol sector llaeth y DU, ond bydd egwyddorion cyffredinol deddfwriaeth yr UE yn debygol o fod yn berthnasol o hyd.

Mae'r pandemig COVID-19 diweddar wedi tynnu sylw ymhellach at yr anawsterau a wynebir gan ffermwyr godro weithiau, yn enwedig o ran newidiadau sydyn mewn prisiau. Er bod y problemau a wynebai'r sector yn ehangach na'r rhai a oedd yn ymwneud yn benodol ag arferion mewn contractau, byddem yn annog ymatebwyr i gyflwyno eu safbwyntiau ar ba fesurau contractiol, os o gwbl, a fyddai'n gwneud y diwydiant llaeth yn fwy cadarn pe bai sefyllfaoedd tebyg yn codi yn y dyfodol.

Mae hwn yn ymgynghoriad i'r DU gyfan, a gynhelir gan DEFRA gyda chytundeb y gweinyddiaethau datganoledig. Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y cadwyni cyflenwi llaeth ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae sector llaeth Prydain Fawr wedi'i integreiddio'n dda yn fewnol ac mae'n gweithredu ar draws ffiniau mewnol. Yng Ngogledd Iwerddon, ceir cadwyn gyflenwi drawsffiniol hynod integredig â Gweriniaeth Iwerddon. Mae cwmnïau cydweithredol llaeth Gweriniaeth Iwerddon yn berchen ar tua 60% o'r capasiti prosesu yng Ngogledd Iwerddon ac amcangyfrifir bod tua 35% o'r llaeth a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei gludo i Weriniaeth Iwerddon i'w brosesu.

Er bod y rhan fwyaf o'r llaeth a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr yn cael ei werthu ar y farchnad ddomestig, mae gan y farchnad yng Ngogledd Iwerddon ffocws ar allforio, sy'n golygu bod cadwyn cyflenwi llaeth Gogledd Iwerddon yn llawer mwy dibynnol ar enillion o'r marchnadoedd nwyddau byd-eang. Mae strwythur y sector prosesu hefyd yn amrywio ledled y DU, gyda lefel uwch o gwmnïau cydweithredol yng Ngogledd Iwerddon.

## 2. Diben yr ymgynghoriad

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod cais Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser am dystiolaeth yn awgrymu bod arferion annheg yn y diwydiant llaeth wedi parhau. Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio eich barn ar y ffordd y defnyddir contractau yn y sector llaeth a'ch barn ar yr angen am ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

Gan y bydd natur cymorth i ffermydd yn newid yn y dyfodol, bydd angen mwy o sefydlogrwydd i fusnesau, ac rydym yn ceisio annog newid o arferion sy'n annog pobl i feddwl yn y byrdymor i'r rhai sy'n creu diwydiant modern, ffyniannus a chynaliadwy.

## 3. Y broses ymgynghori

### Ar bwy y bydd y cynnig hwn yn effeithio?

3.1 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith o reoleiddo gweithgareddau yn y sector llaeth. Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb penodol i chi os ydych yn ymwneud â'r canlynol:

- cynhyrchu llaeth i'w werthu ymlaen i broseswr;
- prynu llaeth i'w brosesu;
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, gwerthu neu brosesu llaeth;
- gweithgareddau er budd y diwydiant llaeth.

### Amseriad a hyd yr ymgynghoriad hwn

3.2 Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 23/06/2020 a bydd ar agor i ymatebion am gyfnod o 12 wythnos.

3.3 **Daw'r cyfnod ymgynghori i ben hanner nos ar 15/09/2020.** Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ymatebion ar ôl y dyddiad hwnnw.

### Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

3.4 Ymatebwch i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio hwb ymgynghori i ddinasyddion ar wefan Defra: <https://consult.defra.gov.uk/agri-food-chain-directorate/cydberthnasau-contractiol-yn-niwydiant-llaeth-y-du>

Drwy anfon e-bost i: [dairycontractconsultation@defra.gov.uk](mailto:dairycontractconsultation@defra.gov.uk)

neu

Department for Environment, Food and Rural Affairs  
Dairy Team  
Seacole Block  
2nd floor  
2 Marsham Street  
London SW1P 4DF

Rhowch safbwyntiau perthnasol, tystiolaeth ac esboniadau fel y gellir ystyried cynigion amgen yn briodol, gan gynnwys unrhyw achosion lle mae gennych reswm dros wneud sylwadau arnynt neu herio unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn.



## 4. Ar ôl yr ymgynghoriad

4.1 Caiff ymatebion sy'n dod i law erbyn 15 September 2020 eu dadansoddi a'u hystyried gan bob un o weinyddiaethau'r DU wrth ystyried y mesurau sydd eu hangen i wella arferion contractiol yn y sector llaeth. Bydd yr ymatebion ar gael i'r timau perthnasol o swyddogion polisi yn y gweinyddiaethau datganoledig, a all rannu gwaith dadansoddi a chasgliadau ag uwch-swyddogion a gweinidogion. Ar ôl yr ymgynghoriad, caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

4.2 Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau a sefydliadau a ymatebodd ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, gall y wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth e.e. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.

4.3 Os ydych am i wybodaeth, gan gynnwys data personol rydych wedi'i darparu, gael ei thrin yn gyfrinachol, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y byddwn yn gallu ei gadw'n gyfrinachol ar bob achlysur. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ei ystyried yn gais cyfrinachedd ynddo'i hun.

4.4 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori a nodir yn y canllawiau gweithredol ar reoleiddio'n well yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

4.5 Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylech eu hanfon at:

Drwy e-bost: [consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk), neu'n ysgrifenedig i:

Consultation Co-ordinator, Defra: Seacole Block, 2nd Floor, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF.

## 5. Amdanoch chi

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at ffermwyr godro a phrynwyr llaeth, ond gwyddom fod busnesau, sefydliadau ac unigolion eraill yn ymwneud â'r sector llaeth neu'n cymryd diddordeb ynddo. Bwriedir i'r cwestiynau isod ystyried yr amrywiaeth hon a rhoi eich ymatebion yng nghyd-destun ymatebion eraill.

### a) A ydych yn un o'r canlynol:

- Cynhyrchydd
- Prosesydd
- Manwerthwr
- Sefydliad cynrychioliadol
- Arall (nodwch)

### b) Os ydych yn sefydliad cynrychioliadol, pa ran o'r gadwyn gyflenwi rydych yn ei chynrychioli?

- Ffermwyr
- Proseswyr
- Manwerthwyr
- Defnyddwyr
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gymwys

### c) Ble mae'ch busnes wedi'i gofrestru?

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod

### d) Os ydych yn gynhyrchydd, ble mae'ch llaeth yn cael ei brosesu fel arfer?

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**e) Os ydych yn gynhyrchydd, a ydych wedi ymrwmo ar hyn o bryd i gontract sy'n cydymffurfio â'r cod gwirfoddol?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**f) Os ydych yn gynhyrchydd, nodwch faint o laeth a gynhyrchir gennych (bob blwyddyn).**

- O dan 500,000 litr
- 500,000 – 1 filiwn o litrau
- 1 filiwn – 3 miliwn o litrau
- Dros 3 miliwn o litrau
- Ddim yn gymwys

**g) Os ydych yn brynwr, ble mae'ch llaeth yn cael ei brosesu fel arfer?**

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**h) Os ydych yn brynwr, a yw eich holl gontractau llaeth yn cydymffurfio â'r cod gwirfoddol?**

- Ydyn
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**i) Os ydych yn brynwr, nodwch faint o laeth a brynir gennych (bob blwyddyn).**

- O dan 50 miliwn o litrau
- 50 – 250 miliwn o litrau
- 250 – 500 miliwn o litrau
- Dros 500 miliwn o litrau
- Ddim yn gymwys

**j) A ydych yn aelod o fusnes cydweithredol ar hyn o bryd?**

- Ydw
- X
- Ddim yn gwybod

## **6. Cwestiynau'r ymgynghoriad**

### **Diwygio contractau – eich barn**

Mae'r Cod Ymarfer Gwirfoddol presennol ar Gontractau Llaeth wedi'i mabwysiadu gan fusnesau sy'n cwmpasu 85% o gynnyrch llaeth y DU a derbynnir yn gyffredinol ei fod wedi arwain at ymddygiad gwell o ran contractau lle mae wedi'i ddilyn yn gaeth. Fodd bynnag, o ystyried ei natur wirfoddol, ystyrir nad yw lefelau cydymffurfiaeth â'r cod yn gyson ymhob rhan o'r diwydiant.

**1. A ydych chi, eich busnes, neu'ch aelodau, wedi cael problemau gyda chontractau'r sector llaeth, er enghraifft lle nad yw telerau contract wedi dilyn yr esiampl a osodir yn y cod gwirfoddol? Rhowch enghreifftiau i esbonio'ch ateb.**

- Ydw/ydyn, cyn 2012 ac yn ystod y 5 mlynedd diwethaf
- Ydw/ydyn, cyn 2012 yn unig
- Ydw/ydyn, dim ond yn y 5 mlynedd diwethaf
- Nac ydw/ydyn
- Ddim yn gwybod

**2. Mae angen deddfwriaeth, yn hytrach na mesurau gwirfoddol, i sicrhau bod safonau yn gyson drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

### **Gofyniad cyfreithiol i gontractio'n ysgrifenedig**

Mae'r defnydd o gontractau ysgrifenedig yn atgyfnerthu'r sicrwydd mewn trefniadau cyflenwi. Er bod contractau ysgrifenedig eisoes yn gyffredin yn y Deyrnas Unedig rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr llaeth, nid ydynt yn ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd.

**3. A ddylai cydberthnasau masnachu rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr gael eu cwmpasu bob amser mewn contract ysgrifenedig? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

## **Amrywiadau yn y DU**

Mae diwydiant Ilaeth y DU yn rychwantu'r pedair gwlad sy'n gweithredu mewn farchnad fewnol sengl, ond mae gwahaniaethau penodol rhwng eu priod sectorau Ilaeth.

**4. Caiff rheoliadau deddfwriaethol eu cymhwyso'n unffurf yn aml ym mhedair gwlad y DU. A oes unrhyw reswm pam y dylid gweithredu'n wahanol? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

## **Dulliau prasio**

Mae prinder gwybodaeth ddibynadwy am brisiau Ilaeth wedi dod i'r amlwg fel un o'r prif broblemau sy'n wynebu ffermwyr godro. Gall prasio mwy tryloyw fod yn fodd i ennyn mwy o ymddiriedaeth rhwng partneriaid busnes a sicrhau bod cyd-drafodaethau yn mynd rhagddynt ar sail gyfartal. Mae mwy o sicrwydd, o ran sicrwydd ynglŷn â phris i gynhyrchwyr a sicrwydd ynglŷn â chyflenwad i broseswyr, yn debygol o gryfhau'r diwydiant cyfan.

Pennir y rhan fwyaf o brisiau Ilaeth yn y DU yn ôl disgrisiwn y prynwyr, sy'n golygu y gall prynwr Ilaeth bennu ac addasu pris Ilaeth, weithiau heb fawr ddim rhybudd. Gall arferion prasio penodol helpu'r farchnad i fod yn fwy ymatebol, ond ni fwriedir iddynt danseilio hyblygrwydd ar y farchnad ond, yn hytrach, bwriedir iddynt wneud gweithdrefnau prasio yn fwy tryloyw.

Mae dulliau prasio yn aml wedi'u teilwra at y model busnes y maent yn ei wasanaethu. Efallai y bydd cwmnïau cydweithredol, er enghraifft, yn defnyddio methodoleg brasio wahanol i eraill. Er y dylai fod gan fusnesau ryddid i fabwysiadu'r dulliau prasio mwyaf priodol i'w gweithrediadau, dylai pob un fod yn deg, yn dryloyw ac yn destun cytundeb rhwng y cynhyrchydd a'r prosesydd.

**5. Dylai unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol gyflwyno rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnwys dull prasio/cyfrifo pris mewn contract. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Mae sawl ffordd wahanol o gynnwys gwybodaeth am brisiau mewn contract cyflenwi. Gall hefyd fod yn briodol bod contract yn cynnig cymysgedd o opsiynau er mwyn ymdrin â gwahanol rannau o'r cyflenwad.

**6. Er mwyn sicrhau tryloywder, mae'n rhaid i fethodoleg unrhyw ddull prasio fod wedi'i nodi'n fanwl mewn contract. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

## **Cyfeintiau ac amseriadau**

Er, yn y pen draw, y bydd marchnadoedd nwyddau byd-eang bob amser yn dylanwadu ar brisiau yn y DU, mae anwadalrwydd hefyd yn gysylltiedig ag amrywioldeb yn y cyflenwad. Gall opsiwn i nodi cyfeintiau ymlaen llaw gynnig ffordd fwy cywir o reoli'r cyflenwad.

**7. Dylid pennu faint o laeth sydd i'w gyflenwi yn y contract. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**8. Os ydych yn cytuno y dylid pennu faint o laeth sydd i'w gyflenwi, rhwch amcan o oddefiant priodol ar gyfer amrywio (+/- X%). h.y.O**

**faint y dylai fod modd amrywio cyflenwad i fyny neu i lawr mewn contract.**

- <1%
- >1%- <3%
- >3% - <5%
- >5% - <10%
- >10%
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**9. Os ydych yn cytuno y dylid pennu faint o laeth sydd i'w gyflenwi, yn unol â pha derfynau amser y dylid cyfrifo cyfeintiau? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Bob mis
- Bob blwyddyn
- Arall (esboniwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**10. Pa opsiynau ddylai fod ar gael i drin cyfeintiau y tu hwnt i'r lefelau goddefiant hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Gwrthod derbyn
- Yr hawl i bennu pris is am gyfeintiau dros ben
- Arall (esboniwch)
- Ddim yn gwybod

## **Hyd contractau**

**11. Dylai telerau contract gadarnhau'r uchafswm cyfnod ar gyfer trefniadau cyflenwi? I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**12. Os ydych yn cytuno y dylid cadarnhau uchafswm cyfnod ar gyfer trefniadau cyflenwi, nodwch hyd y cyfnod y byddech yn ei ffafrio:**

- 6 mis

- 12 mis
- Mwy na 12 mis
- Arall (esboniwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**13. A ddylai'r contract bennu uchafswm cyfnod, y mae'n rhaid adnewyddu ac adolygu'r contract ar ôl y dyddiad hwnnw?**

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

**14. Os llunnir contract drwy ddefnyddio dull prasio sefydlog, pa uchafswm cyfnod y dylid ei bennu ar gyfer y contract hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Hyd at flwyddyn
- Hyd at 2 flynedd
- Hyd at 3 blynedd
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod

## Terfynau contractau

Pe bai partïon mewn contract yn wynebu newidiadau mawr i'r telerau cyflenwi, mae'n bwysig bod modd iddynt derfynu eu contractau o fewn cyfnod rhesymol. Fodd bynnag, yn yr un modd, mae angen cyflenwad sefydlog ar fusnesau er mwyn iddynt ddatblygu strategaethau busnes hirdymor. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen mwy o sicrwydd ynglŷn â'r cymal terfynu.

**15. Dylai cymalau terfynu fod yn orfodol ym mhob contract. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod



## Terfynau contractau – ar ran y cynhyrchydd

**16. Os ydych yn cytuno y dylai cymalau terfynu fod yn orfodol, nodwch yr isafswm cyfnod rhybudd y byddech yn ei ffafrio i gynhyrchydd derfynu'r contract.**

- 1 mis
- 3 mis
- 12 mis
- Arall (esboniwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**17. Nodwch yr uchafswm cyfnod rhybudd y byddech yn ei ffafrio i gynhyrchydd derfynu'r contract.**

- 6 mis
- 12 mis
- Arall (esboniwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

## Terfynu contractau – ar ran y prynwr

**18. Os ydych yn cytuno y dylai cymalau terfynu fod yn orfodol, nodwch yr isafswm cyfnod rhybudd y byddech yn ei ffafrio i brynwr derfynu'r contract.**

- 1 mis
- 3 mis
- 12 mis
- Arall (esboniwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

**19. Nodwch yr uchafswm cyfnod rhybudd y byddech yn ei ffafrio i brynwr derfynu'r contract.**

- 6 mis
- 12 mis
- Arall (esboniwch)
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn gymwys

## Amrywiadau mewn cytundeb

Os oes diffyg hyblygrwydd o ran contractau, mae perygl y bydd canlyniadau niweidiol i'r naill barti neu'r llall, neu'r ddau. Nid ydym yn bwriadu creu unrhyw fesurau deddfwriaethol sy'n tansellio gallu busnesau i ymateb, ond lle mae'n ddymunol newid telerau contract sy'n bodoli eisoes, mae'n bwysig bod y newidiadau hynny'n deg.

**20. Dylai fod modd i bob parti ofyn am newidiadau i delerau contract, a dim ond os cytunir ar unrhyw newid yn unfrydol y dylai'r newid hwnnw ddod i rym. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**21. Cyn gwneud unrhyw newidiadau y cytunir arnynt, beth yw'r isafswm cyfnod rhybudd gorfodol y dylid ei bennu?**

- 1 mis
- 2 mis
- 3 mis
- Arall (esboniwch):
- Ddim yn gwybod

**22. Dylai unrhyw isafswm cyfnod rhybudd gorfodol i amrywio contract gael ei bennu am gyfnod hwy nag unrhyw isafswm cyfnod rhybudd terfynu. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

## Taliadau a phremiymau

Mae taliadau bonws a didyniadau yn rhan hollbwysig o reoli cymeriad a chyfansoddiad y cyflenwad llaeth. Mae taliadau bonws ar gyfer cynnwys cyfansoddol, natur dymhorol neu ddulliau cynhyrchu penodol yn ffordd effeithiol o roi cymhelliant i ffermwyr ddarparu'r hyn y mae galw amdano yn y farchnad. Fodd bynnag, mae diffyg tryloywder

wrth gymhwyso newidiadau i brisiau (megis dulliau profi ar gyfer asesiadau o ansawdd, neu ddidynnu symiau'n ôl-weithredol) yn golygu y gallant gael eu cymhwyso'n annheg.

**23. Mae'n rhaid i gontract gynnwys, mewn iaith glir a diamwys, yr holl delerau ac amodau sy'n ymwneud â thaliadau a didyniadau. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

## Contractau cyfyngol

Mae'r mwyafrif o gontractau llaeth y DU yn gweithredu ar ffurf trefniadau cyflenwi cyfyngol, lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y cyflenwr i werthu'r holl laeth y mae'n ei gynhyrchu i un prynwr. Er y gall trefniadau cyflenwi cyfyngol yn aml fod yn fuddiol i bob parti, weithiau drwy osod trefniadau o'r fath gallant fod yn rhy gyfyngol i ffermwyr a thanseilio cyfleoedd i ehangu o bosibl. [Mae ymchwil ddiweddar gan Lywodraeth yr Alban](#) wedi ystyried trefniadau cyfyngol yn fanwl<sup>1</sup>.

**24. Dylid gwahardd cymalau cyfyngol. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

## Darpariaeth bellach

Efallai y bydd diffygion eraill yn nhelerau contract a'r cymalau amlwg unochrog a all achosi anfantais annheg i bartïon; yn enwedig yn wyneb digwyddiadau annisgwyl. Er enghraifft, mewn rhai contractau, nid oes unrhyw sicrwydd cyfreithiol ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd *force majeure* neu mae ansicrwydd ynglŷn â'r hyn

---

<sup>1</sup> <https://www.gov.scot/publications/impact-mandatory-written-dairy-contracts-european-countries-potential-application-scotland/pages/2/>

sy'n gyfystyr â sefyllfaoedd *force majeure*, e.e. marwolaeth gweithredwr fferm, ansolfedd proseswr ac ati. Hoffem glywed barn pobl am y rhain.

**25. A oes unrhyw gymalau ychwanegol a ddylai fod yn orfodol yn nhelerau contract? Rhowch fanylion.**

**26. A oes unrhyw gymalau ychwanegol a ddylai gael eu gwahardd yn nhelerau contract? Rhowch fanylion.**

## Cyfrinachedd

Er y gellir cyfiawnhau bod rhai manylion penodol mewn contract yn gyfrinachol, gall rhai cymalau cyfrinachedd gael eu defnyddio i danseilio tryloywder. Rydym yn ymwybodol, o dan rai amgylchiadau, fod newidiadau i contract yn cael eu cyflwyno i gynhyrchwyr sydd wedyn yn cael eu hatal rhag ymgynghori â'u cynghorwyr proffesiynol neu gyfreithiol cyn llofnodi. Mae hyn yn achosi risg y bydd ffemwyr yn cael eu cymell i ymrwymo i gytundebau newydd nad ydynt wedi gallu eu dadansoddi'n briodol.

**27. A ddylid cyflwyno rheoliadau ynglŷn â chymalau cyfrinachedd? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Dylid
- Na ddylid
- Ddim yn gwybod

**28. Os ydych yn cytuno y dylai fod rheoliadau ynglŷn â chymalau cyfrinachedd, pa gymalau cyfrinachedd y dylid eu gwahardd, a pha rai (os o gwbl) sy'n dderbyniol? Rhowch fanylion.**

## Datrys anghydfod

Os bydd anghydfod yn codi ynglŷn â contract, mae angen gweithdrefnau datrys anghydfod effeithiol ac rydym yn awyddus iawn i glywed barn pobl ar yr opsiynau sydd ar gael. Gall cymrodeddu fod yn broses gostus a beichus weithiau ac efallai y bydd ffyrdd eraill o benderfynu ar achos gan drydydd parti yn briodol (os bydd y naill barti a'r llall yn cydsynio) fel dull amgen o ddatrys anghydfodau.

**29. Rhowch eich barn ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys anghydfodau a nodwch a ddylai fod yn gyfrwymol neu'n ymgynghorol.**

## **Sefydliadau cynhyrchwyr**

Mae tystiolaeth ddiweddar o ymchwil gan Lywodraeth yr Alban i gyflwyno rheoliadau ynglŷn â chontractau a'u heffaith ledled yr UE yn awgrymu bod cyflwyno sefydliadau cynhyrchwyr ochr yn ochr â deddfwriaeth yn helpu i wella cydbwysedd bargeinion ar hyd y gadwyn gyflenwi.

**30. Dylid ystyried hyrwyddo sefydliadau cynhyrchwyr ochr yn ochr â deddfwriaeth. I ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

## **Effaith ar fusnes**

Cynhaliodd Defra asesiad dros dro o'r effaith er mwyn mesur yr effeithiau posibl ar fusnesau ledled y DU o ganlyniad i unrhyw gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer contractau yn y sector llaeth. Nodwyd y byddai costau untro sy'n gysylltiedig ag ymgyswrtio â'r deddfwriaeth newydd ac ail-lunio contractau sy'n cydymffurfio, yn faich ar broseswyr a chynhyrchwyr yn y flwyddyn gyntaf. Bydd costau parhaus yn deillio o unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol sy'n golygu bod angen ail-lunio'r contract. Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau hyn er mwyn llywio asesiad manylach o'r effaith.

**31. A ydych yn ymwybodol o unrhyw effeithiau ar fusnesau a allai godi o ganlyniad i gyflwyno rheoliadau ynglŷn â chontractau llaeth?**

**Rhowch eich rhesymau dros eich ateb, gan gynnwys unrhyw gostau neu arbedion blynyddol ychwanegol i'ch busnes ac unrhyw effeithiau penodol mewn rhan neu rannau eraill o'r DU.**

## Cyfnod pontio

Rydym yn sylweddoli y gall unrhyw reoliadau newydd a gyflwynir olygu newid ffyrdd o weithio ac felly, pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, hoffem roi digon o amser i brynwyr a chynhyrchwyr ymgyswrtio ag unrhyw newidiadau cyn iddynt ddod i rym.

**32. Faint o amser y byddai ei angen arnoch, yn eich tyb chi, i fod yn barod i roi deddfwriaeth newydd ar waith ac ymrwymo i gontractau newydd? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- 12 mis
- 24 mis
- 36 mis
- Arall (esboniwch):
- Ddim yn gwybod